Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Cynllun Gweithredu: Carchar Ei Mawrhydi y Parc

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu: 03 Mehefin 2020

Ymateb i Arolygiad Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi: 11-22 Tachwedd 2019

Cyhoeddwyd yr Adroddiad: 17 Mawrth 2020

Mae'n debygol y bydd oedi gyda'r camau gweithredu yn erbyn y dyddiadau targed wrth i Covid-19 darfu ar y broses o gyflenwi gwasanaethau.

## CYFLWYNIAD

Mae Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi (HMIP) ac Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yng Nghymru a Lloegr yn arolygiaethau annibynnol sy'n darparu gwasanaethau craffu ar yr amodau ar gyfer carcharorion a throseddwyr, a'r driniaeth ar eu cyfer. Maent yn cyflwyno adroddiad ar eu canfyddiadau ar gyfer carchardai, Sefydliadau Troseddwyr Ifanc ac effeithiolrwydd gwaith y gwasanaeth prawf, Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol a gwasanaethau troseddau ieuenctid ledled Cymru a Lloegr i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi (HMPPS). Mewn ymateb i'r adroddiad mae'n rhaid i HMPPS/y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddrafftio cynllun gweithredu cadarn ac amserol i fynd i'r afael â'r argymhellion. Mae'r cynllun gweithredu'n cadarnhau p'un ai a gytunir ar argymhellion, cytuno arnynt yn rhannol neu na chytunir arnynt (gweler y categorïau isod). Lle cytunir ar argymhelliad neu y cytunir arno'n rhannol, mae'r cynlluniau gweithredu'n darparu camau a gweithredoedd penodol i fynd i'r afael â'r rhain. Mae'r camau gweithredu yn glir, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy ac yn berthnasol gyda pherchennog ac amserlen pob cam wedi'u nodi'n glir. Mae cynlluniau gweithredu yn cael eu hanfon i Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi a'u cyhoeddi ar adnodd Prison Finder gwefan HMPPS. Bydd cynnydd yn erbyn gweithredu a chyflawni'r cynlluniau gweithredu hefyd yn cael ei fonitro a'i nodi.

| Cyfnod | Diffiniad | Sylwadau ychwanegol |
|---|---|---|
| Cytunir | Cytunir â'r holl argymhellion. Mae modd eu cyflawni ac maent yn fforddiadwy. | Dylai'r ymateb egluro'n glir sut y caiff yr argymhelliad ei gyflawni ynghyd ag amserlenni. Dylai'r camau gweithredu fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol) lle bo modd. Dylai'r camau gweithredu fod yn ddigon penodol i'w holrhain ar gyfer cynnydd. |
| Cytunir yn rhannol | Dim ond rhan o'r argymhelliad y cytunir arni, y gellir ei chyflawni, y gellir ei fforddio, ac y caiff ei gweithredu.<br>Efallai na allwn weithredu'r argymhelliad cyfan am resymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir pa ran o'r argymhelliad a gaiff ei gweithredu ynghyd â chamau CAMPUS a rhaid eu holrhain ar gyfer cynnydd.<br>**Rhaid** egluro pam na allwn gytuno'n llawn ar yr argymhelliad - mae'n rhaid i hyn nodi'n glir a yw am resymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. |
| Heb gytuno | Ni chytunir ar yr argymhelliad ac ni chaiff ei weithredu.<br>Gallai hyn fod am resymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. | Rhaid i'r ymateb nodi'n glir y rhesymau pam rydym wedi dewis hyn.<br>**Rhaid** egluro pam na allwn gytuno ar yr argymhelliad - mae'n rhaid nodi'n glir a yw am resymau comisiynu, polisi, gweithredol neu fforddiadwyedd. |

Mae'n debygol y bydd oedi gyda'r camau gweithredu yn erbyn y dyddiadau targed wrth i Covid-19 darfu ar y broses o gyflenwi gwasanaethau.

CYNLLUN GWEITHREDU: ADRODDIAD HMCIP

SEFYDLIAD: CARCHAR EI MAWRHYDI Y PARC

| 1.<br>Rhif Argymhelliad | 2.<br>Argymhelliad | 3.<br>Cytunir/<br>Cytunir yn rhannol/<br>Heb gytuno | 4.<br>Ymateb<br>Camau a gymerwyd/a gynlluniwyd | 5.<br>Perchennog cyfrifol | 6.<br>Dyddiad targed |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Prif bryderon ac argymhellion** | | | | |
| | **At sylw'r Cyfarwyddwr** | | | | |
| A47 | Prif bryder: Roedd yn ymddangos bod lefel yr angen ymhlith poblogaeth y carchar wedi cynyddu, ac roedd hyn yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau cymorth. Er gwaethaf tystiolaeth o leihad dros y flwyddyn flaenorol, roedd y lefel hunan-niweidio yn parhau yn uchel iawn ac, ar y cyd â'r nifer gymharol fawr o farwolaethau wedi'u hachosi gan yr unigolyn ei hun, roedd yn parhau i beri pryder difrifol.<br><br>**Argymhelliad: Dylid lleihau lefelau hunan-niweidio ar frys.** | Cytunir yn rhannol | Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn oherwydd er mwyn helpu i leihau'r lefelau uchel o hunan-niweidio, bydd angen cyllid ychwanegol i gynyddu adnoddau iechyd, yn enwedig o ran y cynnydd a nodwyd ymysg y rhai sy'n nodi bod ganddynt broblemau iechyd meddwl. Bydd hyn yn cael ei godi gyda'r HMPPS, y Bwrdd Iechyd Lleol a Llywodraeth Cymru. Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig ag A48 gan fod angen mwy o adnoddau i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl.<br><br>Mae lleihau achosion o hunan-niweidio yn parhau'n flaenoriaeth i Garchar y Parc, a byddwn yn parhau i weithredu mewn ffordd fwy integredig, ar sail egwyddorion sy'n seiliedig ar drawma er mwyn lleihau lefelau hunan-niweidio. Bydd hyn yn golygu defnyddio mwy o staff arbenigol, gan gynnwys seicolegydd a dadansoddwr ymddygiad, sy'n darparu canllawiau a chyngor i gefnogi staff gweithredol.<br><br>Adolygir pob achos o hunan-niweidio er mwyn dod o hyd i'r rheswm, ac i archwilio atebion posibl. Mae gweithwyr cymorth wedi'u pennu, sy'n cynnig cymorth wedi'i strwythuro i'r troseddwyr hynny sy'n hunan-niweidio'n gyson. Bydd y gwasanaeth allgymorth yn cael ei adolygu i archwilio ffyrdd newydd o gefnogi dynion sy'n hunan-niweidio, fel y gallant gael cymorth ychwanegol. Gellir symud carcharorion ag anghenion ychwanegol i uned arbenigol hefyd, lle gellir mynd i'r afael â'u pryderon. | Cyfarwyddwr/HMPPS<br><br>Cyfarwyddwr<br><br>Cyfarwyddwr | Mehefin 2021<br><br>Ionawr 2021<br><br>Ionawr 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae cydnabyddiaeth glir wedi'i nodi ynglŷn â'r cysylltiadau posibl rhwng carcharorion sy'n defnyddio cyffuriau, yn mynd i ddyled, ac yna'n troi at hunan-niweidio. O ganlyniad, mae camau wedi'u cymryd i geisio lleihau'r defnydd o gyffuriau anghyfreithlon, gan gynnwys cyflwyno sganiwr corff, yn ogystal â rhoi cyngor addysgol i garcharorion ar beryglon defnyddio cyffuriau. Mae mesurau wedi'u cymryd hefyd i geisio atal carcharorion rhag mynd i ddyled, drwy roi blaenswm arian parod iddynt pan fyddant yn cyrraedd y carchar. | Cyfarwyddwr | Ionawr 2021 |
| | | | Caiff yr holl argymhellion a wneir gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf eu hadolygu'n rheolaidd gan staff dalfa fwy diogel, yn ogystal â'u monitro yng nghyfarfod strategaeth y ddalfa fwy diogel a gynhelir bob mis. | Cyfarwyddwr | Ionawr 2021 |
| | | | Bydd yr holl ddogfennau Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm (ACCT) yn cael eu gwirio o ran ansawdd gan y tîm dalfa fwy diogel, er mwyn sicrhau bod mesurau sicrwydd yn eu lle, gan dalu sylw i'r manylion mewn mapiau gofal, arsylwadau a sgyrsiau. Bydd unrhyw bwyntiau dysgu ac arfer da a nodwyd yn cael eu cyfleu i reolwyr achos a staff. | Cyfarwyddwr | Ionawr 2021 |
| | | | Bydd pob rheolaeth achos ACCT yn awr yn cael ei drafod a'i gefnogi drwy Gyfarfod Ymyriad Diogelwch wythnosol y Cynllun Ymyrryd Cymorth gyda Heriau (CSIP), sy'n cael ei gadeirio gan y Pennaeth Preswyliadau a Diogelwch. | Cyfarwyddwr | Ionawr 2021 |
| | | | Cwblheir adolygiad o bob achos ACCT cymhleth gyda chymorth y tîm Dalfa Fwy Diogel Rhanbarthol, a fydd yn archwilio'r rhesymau dros hunan-niweidio, megis amseru a sbardunau. Caiff pob pwynt dysgu ei ymgorffori yng nghynllun gweithredu'r Polisi Lleihau Niwed. | Cyfarwyddwr | Ionawr 2021 |
| | | | Bydd Cynllun Lleihau Niwed wedi'i ddiweddaru yn cael ei ddatblygu, a fydd yn defnyddio'r holl wybodaeth sy'n cael ei chasglu drwy ôl-drafodaethau hunan-niweidio carcharorion, a fydd yn cyfrannu at ddod o hyd i'r prif sbardunau sydd wrth wraidd hunan-niweidio. Mae dull gweithredu amlddisgyblaethol wedi'i ymgorffori i ddatblygu'r cynllun, a fydd yn cynnwys camau a chanddynt derfynau amser i fynd i'r afael â'r achosion. Pan nodir bod angen cymorth ychwanegol sy'n gofyn am arian ychwanegol, megis mwy o adnoddau iechyd meddwl, caiff hyn ei godi | Cyfarwyddwr | Ionawr 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | mewn unrhyw drafodaethau gyda HMPPS, y Bwrdd Iechyd Lleol a Llywodraeth Cymru fel y nodir isod ac yn argymhelliad A48. | | |
| A48 | Prif bryder: Roedd y galw am wasanaethau iechyd meddwl yn uchel ac nid oedd darpariaeth y gwasanaeth yn ateb y galw. Er bod y cymorth a oedd ar gael ar gyfer problemau ysgafn i gymedrol wedi gwella, roedd yr amrywiaeth o ymyriadau arbenigol a chymorth ar gyfer carcharorion ag anghenion mwy cymhleth yn annigonol ac roedd gormod o gleifion yn aros yn rhy hir am wasanaethau a oedd yn bodoli eisoes.<br><br>**Argymhelliad: Dylai anghenion iechyd meddwl y boblogaeth gael eu sefydlu a dylai'r model gwasanaeth ddarparu asesiad prydlon a mynediad amserol at gymorth integredig ac ystod lawn o ymyriadau therapiwtig ar gyfer pob cyflwr seiciatrig.** | Cytunir yn rhannol | Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn oherwydd bydd angen cynnydd yn narpariaeth y gwasanaeth, ac felly mwy o arian i gyflawni hyn. Bydd Carchar y Parc a HMPPS yn codi'r canfyddiadau yn ffurfiol gyda Llywodraeth Cymru, ac yn ceisio gwelliannau a chyllid i sicrhau mwy o wasanaethau iechyd meddwl. Yn y cyfamser, bydd HMPPS yn parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd ac y gellir eu darparu i Garchar y Parc.<br><br>Bydd rhan o unrhyw gynnydd mewn cyllid yn canolbwyntio ar gyflogi staff iechyd meddwl ychwanegol. Mae egwyddor y cynnig yn seiliedig ar greu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Integredig a fydd yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau gofal sylfaenol i ddarparu gwasanaethau saith diwrnod yr wythnos. Bydd unrhyw gynnydd yn y ddarpariaeth o adnoddau iechyd yn caniatáu i Garchar y Parc gynyddu'r gefnogaeth angenrheidiol drwy ystod o ymyriadau, yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn. Mae'r argymhelliad hwn yn gysylltiedig ag A47 gan fod angen mwy o adnoddau i gefnogi gwasanaethau iechyd meddwl, yng nghyswllt helpu i leihau lefelau hunan-niweidio.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn am asesiad anghenion iechyd penodol newydd yn ymwneud ag iechyd meddwl, er mwyn pennu faint mwy o ddarpariaeth y mae ei hangen i ddiwallu anghenion y boblogaeth.<br><br>Ar hyn o bryd, caiff y gwasanaethau eu cynnig o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol, a thîm dynodedig o nyrsys iechyd meddwl yn sicrhau bod carcharorion sy'n cael eu sgrinio wrth gyrraedd neu rai sy'n atgyfeirio eu hunain, yn cael eu gweld yn brydlon, ac yn gallu cael gafael ar lenyddiaeth hunangymorth, cefnogaeth gan gyfoedion, gwaith un i un a grwpiau sy'n canolbwyntio ar reoli gorbryder a hwyliau isel. Mae cymorth cwnsela ar gael hefyd, a bydd unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn ceisio cynyddu'r ddarpariaeth hon.<br><br>Caiff y rheini â phroblemau iechyd meddwl cymedrol i ddifrifol eu hasesu'n brydlon gan y gwasanaethau gofal sylfaenol, ond maent wedyn yn gorfod aros yn hir i gael defnyddio gwasanaethau eilaidd sy'n cael eu darparu | HMPPS/Llywodraeth Cymru<br><br>HMPPS/Llywodraeth Cymru<br><br>HMPPS/Llywodraeth Cymru<br><br>Cyfarwyddwr/Bwrdd Iechyd Lleol/Llywodraeth Cymru<br><br>Cyfarwyddwr/Bwrdd Iechyd Lleol | Ebrill 2021<br><br>Ebrill 2021<br><br>Ebrill 2021<br><br>Rhagfyr 2020<br><br>Ebrill 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mae wedi'i nodi eisoes drwy broses sgrinio wrth gyrraedd ac asesiadau Nyrsys Iechyd Meddwl Cofrestredig fod y garfan hon o ddynion yn dioddef o faterion dementia, anhwylder personoliaeth, Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) a seicosis, a rhaid iddynt aros yn hirach nag y byddent yn gorfod ei wneud yn y gymuned i gael gafael ar ofal eilaidd am driniaeth. Mae materion adnoddau wedi'u nodi yn yr wybodaeth mewngymorth a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe ar hyn o bryd. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel rhan o unrhyw drafodaethau a chais i gynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau gyda Llywodraeth Cymru. | | |
| | | | Bydd hyfforddiant ymwybyddiaeth iechyd meddwl yn parhau i gael ei ddarparu i staff, a bydd y gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd yn darparu hyfforddiant diweddaru bob mis. | Cyfarwyddwr/Bwrdd Iechyd Lleol | Ebrill 2021 |
| | | | Bydd Carchar y Parc yn parhau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, i ddatblygu'r cytundeb lefel gwasanaeth y cytunwyd arno, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei ddarparu ar sail y cyfyngiadau ariannu presennol yng Nghymru. Disgwylir i'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol gael ei adolygu ym mis Rhagfyr 2020. | Cyfarwyddwr/Bwrdd Iechyd Lleol | Ebrill 2021 |
| | | | Rhagwelir y caiff y Bwrdd Partneriaeth ei adfer ond ar hyn o bryd nid oes dyddiad ar gyfer hyn. Fodd bynnag, pan fydd yn dechrau bydd unrhyw faterion a nodir yn cael eu codi drwy'r cyfarfod hwn yng nghyswllt cyflenwi gwasanaethau. Yn y cyfamser, bydd unrhyw faterion yn cael eu codi drwy'r cyfarfodydd chwarterol gyda'r bwrdd iechyd lleol. | Cyfarwyddwr/Bwrdd Iechyd Lleol | Parhaus |
| A49 | Prif bryder: Dim ond un sesiwn ddeintyddol sy'n cael ei chynnig i garcharorion bregus ar uned X bob wythnos, a allai fod wedi arwain at oedi cyn cael gofal brys. | Cytunir | Mae pob carcharor, ble bynnag y mae, yn wynebu'r un faint o amser aros ag y byddai'n rhaid iddo ei wneud yn y gymuned. Lle nodir bod angen gofal brys, rhaid ychwanegu'r unigolion hyn at restrau'r deintydd ar gyfer y diwrnod hwnnw.<br><br>Caiff amseroedd aros eu monitro bob mis gan y Pennaeth Gofal Iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyson ag amseroedd aros yn y gymuned, a phan nodir bod angen sesiynau ychwanegol i ddiwallu anghenion y boblogaeth, gwneir cais am hynny. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Argymhelliad: Dylai pob carcharor gael mynediad cyfartal at ofal deintyddol, gan gynnwys darparu gofal brys.** | | | | |
| A50 | Prif bryder: Nid oedd targedau cynlluniau dysgu unigol y carcharorion yn gyson glir, nac wedi'u personoli i annog cynllunio ar gyfer gwella. Mewn nifer fach o achosion, nid oeddent yn ddigon penodol i helpu carcharorion i ganolbwyntio ar beth yn union yr oedd angen iddynt ei wneud yn y tymor byrrach i wneud y cynnydd gorau y gallent.<br><br>**Argymhelliad: Dylai targedau cynlluniau dysgu unigol y carcharorion gael eu personoli er mwyn annog cynlluniau gwella.** | Cytunir | Bydd cynllun dysgu unigol newydd yn cael ei gyflwyno, bydd yn cael ei bersonoli a’i wneud yn benodol i anghenion carcharorion i sicrhau y gallant gyflawni’r cynnydd gorau posibl, yn enwedig yn y tymor byrrach. Bydd yr holl athrawon yn cael hyfforddiant penodol ar sut mae'n rhaid cwblhau'r cynlluniau. Bydd system sicrwydd chwarterol yn cael ei chyflwyno a fydd yn adolygu cysondeb ar draws yr holl feysydd cwricwlwm, ac yn sicrhau bod pob cynllun yn cynnwys amcanion wedi’u personoli. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2020 |
| A51 | Prif bryder: Cafwyd un deg saith y cant o boblogaeth Carchar y Parc yn euog o drosedd rywiol ond nid oedd unrhyw ymyraethau penodol ar gael yno i fynd i'r afael â'u hymddygiad troseddol. Yn lle hynny, | Heb gytuno | Ni chytunir ar yr argymhelliad hwn gan fod Carchar y Parc yn adnodd cenedlaethol dynodedig fel cyfleuster remánd ac adsefydlu ar gyfer carcharorion sydd wedi’u cyhuddo o droseddau rhywiol neu wedi’u cael yn euog ohonynt.<br><br>Pan welir bod angen ymyriadau penodol ar garcharor i fynd i'r afael â'i ymddygiad troseddol, a chan fod rhaglenni achrededig dim ond yn targedu dynion sydd â risg ganolig neu uwch o aildroseddu (ar hyn o bryd dim ond 6% o'n poblogaeth fyddai'n gymwys yn ôl risg), byddem yn cyflwyno cais i | Cyfarwyddwr | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | bu'n rhaid eu trosglwyddo i garchardai eraill i gael ymyriadau.<br><br>**Argymhelliad: Dylai carcharorion sy'n euog o droseddau rhywiol allu cael gafael ar ymyriadau ymddygiad troseddol perthnasol heb yr angen i drosglwyddo i garchar arall.** | | drosglwyddo unrhyw garcharor a fyddai'n gymwys yn y categori hwn i sefydliad priodol sydd â'r adnoddau i'w darparu. | | |
| | **At sylw HMPPS** | | | | |
| A52 | Prif bryder: Er gwaethaf ymdrechion y tîm ailsefydlu a'r carchar, roedd tua 17% o garcharorion a ryddhawyd dros y chwe mis blaenorol wedi gadael y carchar heb gyfeiriad i fynd iddo, oedd yn tanseilio’r cyfleoedd ailsefydlu.<br><br>**Argymhelliad: Dylai HMPPS weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod llety ar gael i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa.** | Cytunir | Mae’r HMPPS yng Nghymru a Llywodraeth Cymru yn cyd-gynhyrchu ac yn cydariannu nifer o fentrau arloesol, sydd ar wahanol gamau gweithredu, profi a gwerthuso. Maent wedi ariannu secondiad unigryw ar y cyd i gael Arweinydd Cyfiawnder Troseddol i weithio ym maes atal digartrefedd. Mae'r rôl yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi, yn arbennig yng nghyswllt materion yn ymwneud â'r rhai sy'n gadael carchar, ac mae'n hollbwysig o ran cefnogi'r broses o ddeall a gweithredu polisi Llywodraeth Cymru ymhlith asiantaethau cyfiawnder troseddol nad ydynt wedi'u datganoli. Yn y swydd hon, bydd bwrdd prosiect Atal Digartrefedd Cymru gyfan yn cael ei sefydlu, a'i gyd-gadeirio gan HMPPS a Llywodraeth Cymru. Mae cywirdeb y broses gofnodi wedi bod yn nodwedd allweddol o waith gwella, a chynhaliodd y Timau Rheoli Contractau (CMT) ymarfer cywirdeb data yn gynharach eleni a chafodd y canfyddiadau eu rhannu. Cynhaliwyd yr ymarfer eto ym mis Tachwedd 2019 ar sampl arall i ddadansoddi'r gwelliant, gyda'r canfyddiadau i'w cyflwyno i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) dan y broses drosglwyddo Rheoli Troseddwyr. O fis Rhagfyr 2019, symudodd y gwasanaeth rheoli troseddwyr cymunedol yng Nghymru dan berchnogaeth y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a bydd y cyfrifoldeb am gofnodi llety, monitro a sicrhau ansawdd data yn dilyn hefyd. Bydd hyn yn galluogi dull mwy cydlynol ac unedig o gofnodi llety a bydd hefyd yn rhoi mwy o wybodaeth am gynaliadwyedd llety drwy gydol y camau yn nhaith y troseddwr. | HMPPS Cymru/Llywodraeth Cymru | Awst 2021 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd gweithwyr tîm Gwasanaeth Adsefydlu Prawf Cymru yng Ngharchar y Parc yn parhau i helpu carcharorion i ddod o hyd i lety ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, gan gynnwys ysgrifennu at awdurdodau lleol i roi gwybod iddynt fod carcharorion digartref ar fin cael eu rhyddhau. Bydd y tîm yn cysylltu â rheolwyr troseddwyr cymunedol, er mwyn sicrhau bod anghenion carcharorion yn cael eu diwallu lle bynnag y bo modd. Maent wedi llunio rhestr o landlordiaid cyhoeddus a phreifat y gallent fynd atynt i ofyn iddynt ddarparu llety, a sicrhau bod gwybodaeth ar gael am asiantaethau cymorth i rai sy'n cysgu allan. Bydd y carchar yn parhau i ddatblygu ei brosiect ei hun i helpu nifer fach o garcharorion iau i gael llety.<br><br>Mae HMPPS wedi rhoi gwasanaeth 'Drwy'r Giât' gwell ar waith i garcharorion, er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau adsefydlu ym mhob carchar adsefydlu, gan gynnwys Carchar y Parc. Mae'r fanyleb newydd hon yn cynnwys y gofyniad bod Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol (CRC) yn cwblhau tasgau penodol, wedi'u teilwra i helpu carcharorion i sicrhau a chynnal llety sefydlog, cael gwaith a rheoli eu dyledion a'u materion ariannol. I gefnogi hyn, rydym wedi buddsoddi £22m y flwyddyn yn ychwanegol dros weddill oes y contractau CRC ac mae hyn yn darparu tua 500 o staff CRC ychwanegol i gyflwyno'r gwasanaeth Drwy'r Giât mewn carchardai adsefydlu. Mae HMPPS hefyd yn cydweithio ag adrannau eraill o'r llywodraeth a phartïon â diddordeb i helpu i ddiwallu anghenion llety carcharorion pan fyddant yn cael eu rhyddhau.<br><br>Mae HMPPS yn bwriadu defnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot ar lety yn Lloegr, yn ogystal â'r cynllun peilot yn Rhondda Cynon Taf, ynghyd â dysgu o gynlluniau sector gwirfoddol tebyg (yn amodol ar werthusiad), i ddatblygu ateb hirdymor i gefnogi'r rhai sydd â hanes o droseddu i symud at lety sefydlog hirdymor drwy ddilyn y camau canlynol:<br>• Dylai pawb sy'n gadael carchar gael rhywle saff a diogel i fyw; mae llety yn galluogi troseddwyr i gadw swydd a'u gwneud yn llai tebygol o aildroseddu.<br>• Fodd bynnag, mae goresgyn y rhwystrau niferus sy'n wynebu troseddwyr o ran sicrhau llety addas yn rhywbeth na all y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei wneud ar ei phen ei hun.<br>• Ers mis Hydref 2019, mae'r HMPPS yng Nghymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar gynllun peilot ailgartrefu | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cyflym yn Rhondda Cynon Taf, sy'n dyblygu agweddau ar y peilot llety; bydd gwerthusiad o'r cynllun peilot hwn yn cael ei gynnal maes o law.<br>• Mae'r HMPPS yng Nghymru hefyd yn gweithio gyda Chyngor Caerdydd, fel rhan o'i brosiect tai yn gyntaf. Mae'r prosiect yn cefnogi'r holl droseddwyr sy'n oedolion sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa ac sydd â hanes o ddigartrefedd sy'n gysylltiedig â'u troseddu.<br>• Mae arian Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu ar gyfer lleoli unigolyn o'r Tîm Dewisiadau Tai yng Ngharchar EM Caerdydd, gan nodi a darparu cymorth tai i unigolion cyn iddynt gael eu rhyddhau.<br>• Yn amodol ar werthusiad, byddwn yn defnyddio'r gwersi o gynllun peilot Rhondda Cynon Taf, ynghyd â'r cynlluniau peilot llety yn Lloegr (CEM Bryste, Leeds a Pentonville) i lywio'r broses o ddarparu llety i droseddwyr yn y dyfodol, drwy'r model prawf newydd. | | |
| | **Argymhellion cyffredinol** | | | | |
| | **At sylw'r Cyfarwyddwr** | | | | |
| 1.36 | Dylid gwella trefn yr unedau gwahanu, er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael amser y tu allan yn gyson a'u bod yn gallu cysylltu â'u teuluoedd ar adeg briodol. | Cytunir yn rhannol | Cytunir yn rhannol ar yr argymhelliad hwn, oherwydd nad oes digon o adnoddau ar gael i gynnig trefn well pan fydd yr uned yn llawn, gan na ellir datgloi llawer o'r carcharorion ar yr un pryd i gael mynediad i'r cyfleusterau.<br><br>Cynhelir asesiad risg ar bob carcharor sydd wedi'i wahanu i benderfynu pwy all gysylltu ac ymarfer gyda'i gilydd, a phwy all gael trefn bwrpasol yn dibynnu ar hyn a'r rhesymau dros eu gwahanu, sy'n cynnwys cael defnyddio cawod, gwneud ymarfer corff a gwneud galwad ffôn bob dydd lle bynnag y bo modd. Mae eu cydymffurfiaeth â'u trefn bwrpasol yn pennu hawliau, gyda'r pwyslais ar wella ymddygiad i gael symud yn ôl i leoliad arferol a threfn lawn. Mae Rheolwr yr Uned yn monitro ymddygiad a chydymffurfiaeth â'r drefn, ac yn nodi'r carcharorion nad ydynt yn gwneud cynnydd, gan holi'r rhesymau pam mewn ymgynghoriad â'r carcharor. | Cyfarwyddwr | Wedi'i gwblhau a pharhaus |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Er mwyn gwella'r drefn, bydd cais am deleffoni yn y gell yn cael ei gyflwyno, gan y byddai hyn yn caniatáu i'r staff ganolbwyntio ar gyflwyno agweddau eraill ar y drefn. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2020 |
| 2.8 | Dylid ateb clychau galwadau brys o gelloedd o fewn pum munud. | Cytunir | Mae system cloch celloedd newydd wedi'i gosod sydd â larwm gweledol a seinydd. Bydd hyn yn caniatáu i staff adnabod pan fo cloch cell wedi'i gwasgu, a byddwn yn ymdrechu i ateb pob cloch cell o fewn 5 munud. Bydd prosesau monitro parhaus yn cael eu cynnal i adolygu a gwella cydymffurfiaeth. Bydd Carchar y Parc hefyd yn sicrhau'r canlynol:<br><br>• Atgoffa'r staff o bwysigrwydd ymateb i glychau celloedd o fewn 5 munud mewn sesiynau briffio adain, a rhoi adborth wythnosol y tîm diogelwch yn y sesiynau briffio boreol bob dydd.<br>• Ychwanegu defnyddio cloch celloedd at y fforymau carcharorion misol i ddeall y rhesymau dros y defnydd.<br>• Sicrhau bod amrywiaeth o gyfleusterau ar gael cyn cloi, er mwyn lleihau'r defnydd ohonynt am resymau nad ydynt yn rhai brys. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2020 |
| 2.33 | Dylai gwybodaeth am garcharorion sydd ar gynlluniau personol gadael mewn argyfwng gael eu harddangos yn glir ac yn amlwg ar ddrysau eu celloedd ac yn y brif swyddfa. | Cytunir | Bydd y Polisi Byw gyda Chymorth yn cael ei adolygu a'i rannu eto â phob rheolwr preswyl. Bydd hwn yn nodi'r gofyniad i nodi'n glir pwy yw'r carcharorion hynny a chanddynt Gynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP). Bydd pob bwrdd cofrestru uned yn tynnu sylw at garcharorion a chanddynt PEEP, bydd yn cael ei nodi ar ddrysau eu celloedd, ac yn cael eu cynnwys mewn llyfrau trosglwyddo staff. Bydd y Pennaeth Preswyliadau yn monitro cydymffurfiaeth â hyn fel rhan o themâu sicrwydd lleol. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2020 |
| 2.34 | Dylai carcharorion trawsrywiol gael mynediad hawdd a chyflym i ddillad a cholur addas. | Cytunir | Bydd pob unigolyn trawsrywiol yn ein gofal yn cael cymorth i fynegi'r rhyw y mae'n uniaethu ag ef. Mae pecyn cynefino wedi'i gyflwyno i bob carcharor trawsrywiol, sy'n cynnwys dillad isaf a phethau ymolchi benywaidd. Bydd parsel yn cael ei gymeradwyo bob chwe mis, er mwyn cael dull wedi'i bersonoli o ddarparu dillad a cholur menywod. Mae stoc o ddillad menywod hefyd ar gael i ategu'r broses hon.<br><br>Bydd Carchar y Parc yn parhau i gynnal byrddau adolygu ar gyfer carcharorion trawsrywiol, er mwyn darparu dull amlddisgyblaethol o ddatblygu ac adolygu cynlluniau unigol, a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Bydd cytundeb gwirfoddol yn cael ei hwyluso cyn gynted â phosibl i egluro'r ddarpariaeth, ac i ddarparu mynediad i'r rhestr o | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2020 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyfleusterau perthnasol. Gellir cytuno ar ddillad, gwallt, colur ac ategolion eraill drwy'r cytundeb gwirfoddol. Bydd unrhyw gyfyngiadau a osodir yn seiliedig ar risgiau, diogelwch neu asesiadau gweithredol. Bydd y rhestr cyfleusterau yn bwynt trafod yn y grŵp ffocws trawsryweddol er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau. | | |
| 3.49 | Dylai trefniadau datblygu proffesiynol parhaus gael eu llywio gan adnabyddiaeth gadarn o gryfderau a diffygion mewn sgiliau athrawon. | Cytunir | Bydd sesiynau goruchwylio yn nodi meysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar unigolion a'r angen busnes. Bydd ffurflenni archwilio ac arsylwi newydd yn cael eu cyflwyno i sicrhau bod dull cyson ar waith. Caiff system fonitro wedi'i diwygio ei rhoi ar waith, er mwyn gallu monitro datblygiad proffesiynol parhaus yn rheolaidd. Bydd athrawon sydd wedi nodi cryfderau yn rhannu arferion da â chydweithwyr. Bydd sesiynau cymorth a goruchwylio rheolaidd yn cael eu rhoi ar waith i athrawon sydd angen datblygu eu hanghenion. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2020 |
| 3.50 | Dylid gwella mynediad dysgwyr ac athrawon at adnoddau dysgu ar-lein. | Cytunir | Erbyn hyn mae modd i ddysgwyr ac athrawon ddefnyddio'r Campws Rhithwir (mynediad i'r rhyngrwyd i garcharorion at gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth gymunedol), sy'n rhoi cyfle iddynt fanteisio ar ystod eang o gyfleoedd dysgu. Bydd rhagor o ddewisiadau yn cael eu hystyried i helpu i ddatblygu adnoddau ar-lein ychwanegol, a dulliau dysgu, i ehangu a chyfoethogi'r cyfleoedd ar gyfer dysgu digidol. | Cyfarwyddwr | Rhagfyr 2020 |

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| Cytunir | 8 |
| Cytunir yn rhannol | 3 |
| Heb gytuno | 1 |
| **Cyfanswm** | 12 |

Mae'n debygol y bydd oedi gyda'r camau gweithredu yn erbyn y dyddiadau targed wrth i Covid-19 darfu ar y broses o gyflenwi gwasanaethau.